**EITEM AR YR AGENDA: 8**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mawrth 2010**

**Arolygiad o'r Gwasanaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ganfyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn dilyn arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn atodiad i'r adroddiad hwn, mae copi o Adroddiad Arolygiad yr Awdurdod Gweithredol (Atodiad 1) a llythyr eglurhaol at y Prif Swyddog Tân (Atodiad 2).

**Cyflwyniad**

2 Ym Mawrth 2009, cafodd y Gwasanaeth wybod bod yr Awdurdod Gweithredol yn bwriadu cynnal arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o sampl o wyth o Wasanaethau Tân ac Achub trwy'r Deyrnas Unedig. Yr arolygiad i gael ei gynnal yn Rhagfyr 2009.

3 Diben yr arolygiadau oedd caniatáu i'r Awdurdod Gweithredol farnu ynghylch effeithiolrwydd y systemau rheoli iechyd a diogelwch, a dylanwadu ar y rhai sydd â'r ddyletswydd i adolygu a gwella'r systemau hynny.

4 Roedd yr arolygiadau'n defnyddio fframwaith arweiniad yr HSG 65, sef 'Rheoli Iechyd a Diogelwch yn Effeithiol' gan asesu'r modd y rheolir iechyd a diogelwch trwy roi ystyriaeth benodol i'r materion canlynol, ymysg rhai eraill:

- Hyfforddiant a chymhwysedd mewn sgiliau craidd diffodd tân, gan gynnwys Offer Anadlu a'r gweithdrefnau cysylltiol; hyfforddiant ymddygiad tân mewn lle cyfyngedig.
- Cymhwysedd ar gyfer rheoli digwyddiadau.

- Darparu gwybodaeth risg-gritigol i oleuo’r broses gwneud penderfyniadau.

5 Ar ddiwedd yr arolygiadau hyn, bydd pob Awdurdod Tân ac Achub yn cael adroddiad arolygiad unigol (Atodiad 1). Ar ddiwedd y rhaglen arolygu bydd yr Awdurdod Gweithredol yn llunio adroddiad gyda’r gwahanol wasanaethau wedi eu cyfuno ac yn ddienw, a bydd yn cael ei rannu gyda’r Gwasanaethau Tân ac Achub a rhanddeiliaid eraill.

**Yr Adroddiad Arolygu**

6 Ar y cyfan, mae Adroddiad yr Awdurdod Gweithredol yn gadarnhaol iawn i’r polisïau, y gweithdrefnau a’r prosesau y mae’r Gwasanaeth wedi eu rhoi yn eu lle, yn gyffredinol ac o ran y materion penodol a grybwyllir ym mharagraff 4.

7 Mae pedwar argymhelliad i’w cael yn llawn ar dudalen 13 o adroddiad yr arolygiad.

**Y Camau Nesaf**

8 Bydd y Swyddogion yn datblygu cynllun gweithredu i gyflawni’r argymhellion, a bydd hyn yn cynnwys y meysydd eraill y mae’r Awdurdod Gweithredol wedi awgrymu y gallai’r Gwasanaeth fod yn dymuno edrych ymhellach arnynt.

9 Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei adolygu, bydd yr Awdurdod Gweithredol yn pennu amserlenni priodol (Atodiad 2).

10 Bydd copi Cymraeg o’r adroddiad yn cael ei anfon ymlaen i’r Aelodau maes o law, ac unwaith y bydd hwnnw wedi cyrraedd, caiff yr adroddiad ei roi ar wefan y Gwasanaeth.

**Argymhellion**

11 Bod yr Aelodau’n nodi’r wybodaeth sydd yn adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

12 Bod yr Aelodau’n derbyn y diweddaraf am hynt y cynllun gweithredu unwaith y bydd hynny wedi ei gytuno gyda’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.